| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **21, IONAWR, 2010** |
| **PWNC** | **DIWYGIO'R CYFANSODDIAD** |
| **PWRPAS** | **CYFLWYNO MAN DDIWYGIADAU I GYFANSODDIAD Y CYNGOR.** |
| **AWDUR** | **DILYS PHILLIPS, PENNAETH DEMOCRATIAETH A CHYFREITHIOL.** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **CYNGHORYDD J. R. JONES.** |

**1**. **<u>Protocol ar weithredu dyletswyddau statudol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.</u>**

Penderfynodd Y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 16, Rhagfyr, 2009 i fabwysiadu cyfres o brotocolau yn ymwneud â chyfrifoldebau statudol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae protocol o'r fath yn un o'r dogfennau statudol sy'n ffurfio rhan o Gyfansoddiad y Cyngor. Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r protocol newydd yn ffurfiol fel rhan o'r Cyfansoddiad i gymryd lle'r protocol presennol. Mae'r protocol newydd i'w gael yn Atodiad '1'.

**2.** **<u>Diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion.</u>**

Mae'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion yn rhoi hawl i swyddogion weithredu ar ran y Cyngor mewn materion nad ydynt yn gyfrifoldeb i bwyllgor. O bryd i'w gilydd gwelir bod bwlch yn y cynllun, naill ai oherwydd bod deddfwriaeth newydd wedi ei chyflwyno neu oherwydd bod angen gweithredu mewn ffordd lle na fu galw i weithredu o'r blaen. Mae'n bwysig fod y pwerau hyn yn y cynllun er mwyn gwarchod y swyddogion a'r Cyngor rhag her gyfreithiol.

**3.** Gofynnir i'r Cyngor wneud y mân ddiwygiadau yn Atodiad 2 er mwyn cadw'r cynllun yn gyfredol.

**4.** **<u>Argymhelliad.</u>**

Argymhellir bod y Cyngor yn cyflwyno'r diwygiadau a amlinellir ym mharagraffau 1 a 3 i'r Cyfansoddiad.